**Gwelliant i'r Hysbysiad o Gynnig a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Louvain Roberts yn ystod cyfarfod Cyngor Sir Caerfyrddin ar 13eg Ionawr 2021**

Mae tân gwyllt yn cael ei ddefnyddio gan bobl drwy gydol y flwyddyn, i nodi gwahanol ddigwyddiadau.

Er ei fod yn rhoi llawer o fwynhad i bobl, mae'n gallu achosi niwed difrïol i bobl eraill ac anifeiliaid

Mae'r anifeiliaid yr effeithir arnynt nid yn unig yn dioddef trallod seicolegol ond mae hyn hefyd yn gallu achosi iddynt hunan-niweidio.

Rydym felly yn galw ar Gyngor Sir Caerfyrddin i'w gwneud yn ofynnol i'r holl arddangosfeydd Tân Gwyllt Cyhoeddus o fewn ffiniau'r awdurdodau lleol gael eu hysbysebu cyn y digwyddiad, gan ganiatáu i drigolion gymryd y rhagofalon angenrheidiol o ran lles eu hanifeiliaid a lles pobl agored i niwed.

Mynd ati i hyrwyddo ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus am effaith tân gwyllt ar les anifeiliaid a phobl agored i niwed, megis cyn-filwyr sy'n dioddef Anhwylder Straen wedi Trawma (PTSD), gan gynnwys y rhagofalon y gellir eu rhoi ar waith i liniaru'r risgiau.

Ysgrifennu at Lywodraeth y DU, yn ei hannog i gyflwyno deddfwriaeth yn debyg i'r hyn sy'n cael ei gynnig gan Lywodraeth yr Alban i gyfyngu ar yr amser y gellir gwerthu tân gwyllt a'i ddefnyddio gan y cyhoedd, yn ogystal â chyflwyno terfynau i gyfyngu ar uchafswm lefel sŵn y tân gwyllt i 90 dB o ran y rhai sy'n cael eu gwerthu i'r cyhoedd ar gyfer arddangosfeydd preifat.

Annog cyflenwyr tân gwyllt yn lleol i stocio 'fersiwn mwy tawel' o'r tân gwyllt a ddefnyddir ar gyfer arddangosfeydd cyhoeddus ac ati

**Cynigiwyd gan:**
Y Cynghorydd Rob James

**Eiliwyd gan:**
Y Cynghorydd Amanda Fox